Casgliad

Mae hanes y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer chwarae, darpariaeth Chwarae Allan, Polisi Chwarae Conwy a'r Tîm Datblygu Chwarae wedi arwain at isadeiledd cryf ar gyfer datblygu chwarae yng Nghonwy. Mae'r trosglwyddiad o CGGC i'r awdurdod lleol wedi bod yn dda, yn arbennig wrth ystyried fod y trosglwyddiad wedi digwydd ar ddechrau'r pandemig.

Mae cysylltiadau gwych wedi cael eu creu rhwng yr adrannau Hamdden a datblygu chwarae a nifer o weithgareddau ar gyfer cymunedau o ganlyniad i hyn gyda dull cydweithredol. Gyda nifer o gynlluniau yn y dyfodol ar gyfer cydlyniant a gwaith datblygu pellach.

Mae cysylltiadau da rhwng yr adrannau perthnasol fodd bynnag mae'r tîm chwarae wedi'i chael yn anodd o ran datblygiad strategol, ac mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnydd a wnaed mewn rhai rhannau o'r cynllun gweithredu gyda chamau gweithredu yn parhau. Mae nifer o gamau gweithredu mawr o fewn Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol Conwy 2022 sydd angen gofal a sylw penodol, er enghraifft y cyfranogiad yn y CDLl.

Mae Conwy wedi rhagori mewn nifer o feysydd o ddarpariaeth chwarae a chyfleoedd chwarae digonol, ac mae enghreifftiau o waith wedi cael eu defnyddio fel modelau o arfer da yn genedlaethol. Mae Conwy mewn sefyllfa gref o ran y ddarpariaeth mae'n ei ddarparu ar hyn o bryd, ac mae'n gallu cydweithio gydag adrannau eraill er mwyn cyflawni modelau newydd o weithio er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer chwarae.

Cyfrannwr arwyddocaol i gryfder y cyfleoedd chwarae digonol yng Nghonwy ar amser ysgrifennu yw'r ddarpariaeth chwarae mynediad agored wedi'i staffio sy'n rhedeg drwy'r flwyddyn ac yn ystod gwyliau'r haf.

Nodwyd cryfder digonolrwydd yn y raddfa foddhad cyffredinol o 70% o blant yn nodi eu bod naill ai'n fodlon neu'n hynod fodlon gyda'u cyfleoedd chwarae. Fodd bynnag, gan fod Conwy yn cydnabod pwysigrwydd chwarae ar gyfer holl blant, ni allwn anghofio fod 3 mewn 10 o blant ddim yn fodlon a dylai hwn fod yn yrrwr allweddol yn ein gwaith tuag at ddigonolrwydd yn y dyfodol.

Mae Datblygiad Chwarae a'r 5 Canolfan i Deuluoedd yn cydweithio er mwyn sefydlu chwarae yn rhan annatod o'r holl gyfleoedd sydd ar gael i deuluoedd a defnyddio popeth y mae cyfleoedd chwarae cyfoethog yn ei gynnig, o ran canlyniadau positif i blant a theuluoedd, ac ar gyfer ymgysylltu â gwasanaethau. Mae'n bwysig bod y wybodaeth a gesglir yn arolwg Chwarae Conwy yn cael ei ddefnyddio i siapio darpariaeth gwasanaethau fel bod lleisiau plant yn cael eu clywed.

Mae adnewyddu pecyn gwaith hawliau plant a grëwyd gan Gonwy yn cynnig cyfle da i atgoffa swyddogion o'u dyletswydd i dalu sylw dyledus i hawliau plant a sefydlu hyn mewn arferion

gweithio. Bydd y pecyn gwaith, yn debyg iawn i'r gwaith cyfleoedd chwarae digonol ar draws adrannau a themâu.

Fodd bynnag, er mwyn parhau i weithio tuag at ddiogelu digon o gyfleoedd chwarae yng Nghonwy, mae'n bwysig gwneud y defnydd gorau o adnoddau a chanfod ffynonellau o gyllid er mwyn parhau â'r isadeiledd ar gyfer datblygu chwarae er mwyn cefnogi gweithwyr proffesiynol a grwpiau cymunedol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae.

**Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol**

Mae holiaduron Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a data o'r canfyddiadau arolwg blaenorol yn darparu dealltwriaeth dda o anghenion chwarae gwahanol grwpiau. Bydd ehangu'r arolwg i gynnwys blwyddyn 8 yn ogystal â 5 yn galluogi i'r Tîm Datblygu Plant archwilio sut i ddatblygu cyfleoedd ymhellach ar gyfer pob oed. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi ni i adlewyrchu ar gyfleoedd ar gyfer plant penodol yn yr asesiad nesaf. Bydd defnyddio hyn, ynghyd ag ymchwil grŵp ffocws y bydd y Tîm Datblygu Plant yn ei redeg trwy gydol y 12 mis nesaf, a gwybodaeth eraill megis arolygon cyngor yr ifanc a thystiolaeth ansoddol staff, yn sicrhau dealltwriaeth fwy cywir o'r anghenion amrywiol.

Bydd y cysylltiadau presennol rhwng datblygu chwarae, Canolfannau i Deuluoedd, gwasanaethau ieuenctid, swyddogion Hamdden a'r tîm Plant ag Anableddau yn ein galluogi ni i gynllunio a blaenoriaethu cyfleoedd chwarae mewn darpariaeth gynhwysol ac ar wahân ar gyfer plant anabl. Wrth sicrhau parhad y ddarpariaeth chwarae, byddwn yn adeiladu ar y trefniadau partneriaeth hyn er mwyn sicrhau fod y cynnydd mewn darpariaeth chwarae yn cynnwys cynnydd mewn cyfleoedd chwarae i blant gydag anghenion amrywiol.

**Mater C: Lle i blant chwarae**

Mae adolygiad o'r CDLl yn digwydd ar hyn o bryd, yn cynnig cyfle i sefydlu pwysigrwydd chwarae o fewn ei ganllawiau.

Mae cynnydd wedi cael ei wneud wrth ymgynghori gyda chwarae ar geisiadau cynllunio ar raddfa fawr. Mae'r Tîm Datblygu Chwarae hefyd yn gallu cynnig ymgynghoriad a chynnal sesiynau cydweithredol gyda'r timoedd parciau er mwyn sicrhau fod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth ail-ddatblygu llefydd i chwarae mewn ardaloedd penodol sy'n cynnwys offer chwarae parhaol fel y safon.

Ar hyn o bryd mae plant i weld yn fodlon gydag ansawdd eu llefydd chwarae, gyda llai na 10% o blant yn dweud fod y llefydd yn wael neu ddim yn dda. Fodd bynnag, roedd plant yn dueddol o adrodd eu bod angen mwy neu wahanol lefydd i chwarae gyda 41% yn unig o blant yn dweud y gallent chwarae yn yr holl lefydd yr hoffent wneud hynny. Ar y cam hwn mae'n werth nodi fod 45% o blant Conwy yn mynd i chwarae gydag oedolion. Yn sgil cyllidebau cyfyngedig

ar hyn o bryd mae swm ac ansawdd y mannau cyhoeddus ar gyfer chwarae dan fygythiad, dylai'r mater hwn gael ei fonitro'n agos gan ei fod yn glir o'r ymgynghoriad fod y swm o lefydd sydd gan blant i chwarae yn cyfrannu yn sylweddol tuag at eu teimlad o fodlonrwydd.

**Mater Ch: Darpariaeth gyda Goruchwyliaeth**

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud i gynyddu lefelau darpariaethau chwarae gyda staff ar draws y sir. Bellach mae darpariaeth drwy gydol y flwyddyn yn rhedeg ar draws pum ardal Conwy ac yn ystod holl wyliau ysgol mae'r ddarpariaeth yn rhedeg. Yn ystod gwyliau'r haf mae sesiynau ychwanegol yn cael eu hariannu gan gynghorau tref a chymuned ac mae swm y timoedd a'r staff sydd ei hangen ar gyfer y cyfnod hwn yn tyfu. Mae'r gwelliant hwn wedi cyfrannu at welliant nodedig yng nghynnydd Conwy tuag at ddigonoldeb. Mae'n glir fod plant a theuluoedd sy'n mynychu'r ddarpariaeth chwarae yn elwa'n fawr ohono gyda 94% yn nodi ei fod yn ardderchog ac oedolion yn adrodd manteisio megis; "Mae plant yn cael cyfle i ddefnyddio eu dewisiadau, sgiliau a dychymyg eu hunain drwy chwarae ac adeiladu arnynt", "Chwarae gyda'n gilydd (oedolion a phlant) a chael amser gwych. Wedi fy mhlesio'n fawr!", "Ysbryd cymunedol. Balchder yn yr ardal leol."

Mae'r partneriaethau presennol ar gyfer darpariaeth o fewn y gwasanaethau Hamdden yn dod ag arbenigedd a phrofiad o fathau gwahanol o ddarpariaeth ynghyd ac yn enghreifftiau gwych o gydweithio i gyflawni gwell digonolrwydd.

**Mater D: Ffioedd darpariaeth chwarae**

Mae darlun da o'r ddarpariaeth chwarae a hamdden a'u ffioedd ar gronfa ddata gwybodaeth a gedwir gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy. Mae'r ystod o ddarpariaeth am ddim a chost isel sydd ar gael wedi gwella yn sgil darpariaeth chwarae gyda staff.

Mae Canllawiau 1 a 2 Allan i Chwarae Conwy yn cynnig gwybodaeth ardderchog ar fannau am ddim i chwarae ar draws y sir, ac mae ei lwyddiant yn cael ei weld gyda'r nifer o deuluoedd sy'n eu defnyddio'n rheolaidd a gan siroedd eraill sydd wedi cynhyrchu eu fersiynau eu hunain o'r canllawiau. Hoffai Tîm Datblygu Chwarae Conwy archwilio'r cyfle i wneud hwn yn becyn rhyngweithiol ar gyfer plant ac oedolion, gan sicrhau fod y wybodaeth yn gyfredol a darparu gwybodaeth ar ddigwyddiadau, chwaraeon neu ddarpariaeth chwarae eraill sydd ar gael o fewn yr ardal leol.

**Mater Dd: Mynediad at le / darpariaeth**

Mae newidiadau mawr wedi bod mewn polisi gan Lywodraeth Cymru a fydd yn effeithio ar ddigonolrwydd, mae'n amser pwysig i'r Tîm Datblygu Chwarae ymgysylltu mewn gwaith a sicrhau fod plant yn ymgysylltu â'r newidiadau.

Mae’r Adran Priffyrdd yn cynllunio unrhyw ymyraethau traffig diogelwch ffordd yn seiliedig ar dystiolaeth o ystadegau anafiadau damweiniau. Os oes ceisiadau gan gymunedau i gynllunio ymyraethau i wella diogelwch ffyrdd, gall yr Adran Priffyrdd ymchwilio i asesu’r angen.

Mae’r Adran Priffyrdd yn cyflogi cydlynydd diogelwch ffyrdd drwy ei gyllideb refeniw craidd, er mwyn cydlynu cyflwyniad Kerbkraft a Bike-ability mewn ysgolion, mae’r gallu i ddarparu sesiynau diogelwch ffyrdd wedi cael ei nodi’n gynyddol drwy’r AWPOG. Os oes problemau wedi’u hadrodd o ran diogelwch plant wrth chwarae allan, gall y cydlynydd gynghori a gweithio gyda’r gymuned. Mae’r ymyrraeth hwn yn seiliedig ar alluogi plant a phobl ifanc i symud o amgylch eu cymunedau yn ddiogel. Mae’r cynlluniau ymyrraeth newydd yn cael eu harchwilio gan yr adran priffyrdd yn dangos menter a gofal i wella diogelwch ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffordd.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy yn cadw cronfa ddata o wybodaeth mewn perthynas â’r ddarpariaeth chwarae a hamdden sydd ar gael i rieni. Bydd Tîm Datblygu Chwarae Conwy yn gweithio gyda’r Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sicrhau fod data mewn perthynas â chyfleoedd chwarae a hamdden yn gyfredol ac yn hygyrch.

**Mater E: Diogelu a datblygu’r gweithlu chwarae**

Ar hyn o bryd nid oes swyddi gwaith chwarae na datblygu chwarae strategol wedi’u hariannu o gyllid craidd yng Nghonwy. Mae staffio gwaith chwarae yn ddibynnol ar gyllid grant. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i gyflawni nodau a thargedau a nodi yn y cynllun gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol yn ogystal â chynaliadwyedd prosiectau allweddol.

Mae’r cynnydd mewn darpariaeth chwarae gyda staff wedi arwain at gynnydd yn nifer y gweithwyr chwarae, ac felly mae’r angen am hyfforddiant ansawdd uchel wedi cynyddu. Caiff hyn ei ddarparu gan y Tîm Datblygu Chwarae. Mae Clybiau Plant Cymru Kids Clubs Wales yn darparu cymorth gwerthfawr i sefydliadau gofal plant tu allan i’r ysgol ac mae cyrff ymbarél eraill yn cefnogi anghenion darparwyr gofal plant eraill.

Mae’r Tîm Datblygu Plant angen cynyddu ei ystod o hyfforddiant sydd ar gael, nid yn unig i weithwyr chwarae, gofal plant, gwirfoddolwyr, rhieni ond gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi profi i fod yn boblogaidd a dylanwadol mewn digonolrwydd yn y gorffennol. Yn sgil partneriaeth gyda Dysgu Oedolion Cymru mae cynnydd wedi bod mewn achrediad hyfforddiant gwaith chwarae a darpariaeth cymwysterau er mwyn helpu lleoliadau i gyflawni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

**Mater F: Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Cymunedol**

Drwy holiaduron Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae gennym ddealltwriaeth dda o farn plant a phobl ifanc. Mae gennym gysylltiadau cryf gydag adrannau ALl sy'n golygu fod arbenigedd datblygu chwarae yn cael eu defnyddio mewn ymgynghoriadau cyhoeddus gyda'r ALl a chymdeithasau tai.

**Mater Ff: Chwarae yn yr holl bolisïau perthnasol ac agendâu gweithredu**

Mae nifer o enghreifftiau o arferion da yn ymwneud â chwarae ar agendâu eraill. Mae gwaith mewn ysgolion, darpariaeth mynediad agored a darpariaeth i'r diamddiffyn yn hynod o gryf. Hefyd mae sail dda i waith er mwyn cynyddu'r defnydd a dealltwriaeth o asesiad risg-mantais a phwysigrwydd chwarae.

Mae cysylltiadau da wedi cael eu sefydlu gydag agendâu polisi a gweithredu eraill trwy waith y Tîm Datblygu Chwarae. Yn ogystal â hynny, mae mwy o ddealltwriaeth a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd y ddarpariaeth chwarae ar gyfer plant a chymunedau gan Uwch Reolwyr a Phenaethiaid Adrannau o fewn yr Awdurdod Lleol, wedi cael effaith sylweddol ar gyflwyno blaenoriaethau chwarae o fewn polisïau eraill. Gellir gweld ymrwymiad i chwarae plant yn y model canolfan i deuluoedd sy'n nodi chwarae fel un o'i flaenoriaethau.

Y Ffordd Ymlaen

Mae ystod o weithredoedd sydd wedi cael eu hamlygu fel datrysiadau cost isel / dim cost dros y flwyddyn 2022/23. Mae'r rhain wedi cael eu nodi fel parhad o arferion gweithio cadarnhaol presennol neu ddarnau penodol o waith i newid arferion. Fodd bynnag, mae cyflogi Prif Swyddog Chwarae a fydd yn arwain gydag adrannau perthnasol yn hanfodol i lwyddiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflawni digonolrwydd.

**Gall y Tîm Datblygu Chwarae gyda phrif swyddog symud ymlaen gyda mwyafrif y camau gweithredu a nodir. Gan fod Cyllid Teuluoedd yn Gyntaf y tîm yn gontract blynyddol ar hyn o bryd, bydd yn bwysig rhoi mesurau mewn lle i sicrhau fod arbenigedd a chapasiti yn parhau i 2023/24 ar gyfer ysgrifennu cynllun gweithredu newydd a symud ymlaen gyda'r camau gweithredu ynddo.**

Mae rhai o'r camau gweithredu yn y blaenoriaethau blaen-gynlluniau un ai'n gofyn am ail-flaenoriaethu cyllidebau cyfredol neu ganfod cyllid amgen. Mae teimlad cryf y byddai dyraniad o gyllideb wedi'i glustnodi ar gyfer chwarae gan Lywodraeth Cymru yn cael effaith sylweddol ar isadeiledd lleol er mwyn sicrhau digonolrwydd, yn arbennig o ran darpariaeth chwarae gyda staff ac mewn perthynas â hyfforddiant a datblygu'r gweithlu.

Byddai unrhyw fuddsoddiad yn cael yr effaith orau petai'n cael ei ddyrannu ar sail leol yn ogystal â chenedlaethol. Byddai cyfeiriad pendant gan Lywodraeth Cymru o ran ffrydiau

cyllido presennol a ellir eu defnyddio ar gyfer datblygu chwarae a darpariaeth chwarae yn rhoi mwy o eglurder i'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Mae'r Tîm Datblygu Chwarae yn aros am yr Adolygiad Chwarae Gweinidogol.